ISSN 2053-5171
Rhifyn 14
Hydref 2018

# Herio Materion Crefyddol



**Jeff Astley**
ar Yr Iawn: Profiad, Stori, Damcaniaeth?

**Clive Marsh**
ar Crefydd a Diwylliant Poblogaidd

**Hayley Matthews**
ar 'Impersonating Beyoncé is Not Your Destiny,Child': Myfyrdodau ar Ddiwinyddiaeth Ffeministaidd

**Jeff Astley**
ar Richard Swinburne ar yr Enaid

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch. Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

# Herio Materion Crefyddol

## Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

## Rhifyn 14 Hydref 2018

## Cynnwys


Yr Iawn: Profiad, Stori, Damcaniaeth? 2
Jeff Astley

Crefydd a Diwylliant Poblogaidd 8
Clive Marsh

'Impersonating Beyoncé is Not Your Destiny, Child': Myfyrdodau ar Ddiwinyddiaeth Ffeministaidd 14
Hayley Matthews

Richard Swinburne ar yr Enaid 21
Jeff Astley



**Golygydd**
Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol Warwick)

**Golygydd Cymraeg a Golygydd Rheolaethol**
Dr Tania ap Siôn (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

**Ymgynhorwyr Golygyddol**
Y Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)
Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)
Libby Jones (Canolfan San Silyn, Wrecsam)
Yr Athro William K. Kay (Prifysgol Caer)
Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)
Phil Lord (Arweinydd System, GwE)
Yr Athro Peter Neil (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)
Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Warwick)



Dyluniwyd gan Phillip Vernon
Cyfieithiad gan Sioned Jones



*Herio Materion Crefyddol*
Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Ffôn: 01248 680131
E-bost: smc.taniaapsion@gmail.com
http://www.st-marys-centre.org.uk/

St Peter's Saltley Trust
Grays Court
3 Nursery Road
Edgbaston
Birmingham B15 3JX
Telephone 0121 427 6800
E-bost: director@saltleytrust.org.uk
https://www.saltleytrust.org.uk/

Canolfan San Silyn
Tŷ'r Coleg
Rhes y Deml
Cymru,
Wales
LL13 8LY
E-bost: tania.apsion@bishopg.ac.uk
https://stgilescentre.org/cy/



Caiff fersiwn Gymraeg *Herio Materion Crefyddol* ei noddi a'i reoli gan Ganolfan San Silyn Wrecsam – https://stgilescentre.org


Mae *Herio Materion Crefyddol* yn gyfnodolyn ar-lein, mynediad agored am ddim a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch, gan ddod ac ysgolheictod ac ymchwil diweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddosbarth lefel A. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cyfnodolyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 14 Hydref 2018
© Jeff Astley

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Yr Iawn: Profiad, Stori, Damcaniaeth?

Jeff Astley

Mae'r erthygl hon yn archwilio statws hanesion Cristnogol am yr iawn, yn cynnwys cyfeiriad at 'wrthrychedd' a 'goddrychedd'.

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*EDEXCEL Astudiaethau Crefyddol – Datblygiadau, Cristnogaeth, 2 Detholiad o gysyniadau a thestunau: Credoau am yr iawn ac iachawdwriaeth.*
*EDUQAS Astudiaeth o Gristnogaeth, Thema 2c: Yr Iawn.*
*CBAC Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth, Thema 2c: Yr Iawn.*

**Dechrau gyda phrofiad**

Yn y Testament Newydd Groeg, mae gan *sozo* ('Rwyf yn achub') a *soteria* ('achubiaeth') ystod o ystyron seciwlar a diwinyddol fel y Gymraeg, yn cyfeirio at achub rhag perygl, cael eich 'iachau' yn gorfforol neu feddyliol, yn ogystal â gwaredigaeth ysbrydol. Mae'r angen am achubiaeth yn awgrymu fod rhywbeth o'i le gyda bywyd dynol; rhyw rwystr, annigonolrwydd neu ataliaeth y mae angen i ni gael ein hiachau neu'n rhyddhau oddi wrthynt; neu ryw staen neu halogiad sydd angen ei lanhau. Y profiad dynol hwn yw man cychwyn achubiaeth pan mae'n dod yn gysylltiedig â'r profiad o gariad rhad, maddeugar a chymorth Duw (neu 'gras' i'r Cristnogion), a'r teimlad sy'n dilyn o gael maddeuant, eich derbyn a'ch adfer i berthynas iawn â Duw. Yr iawn yn Saesneg yw *atonement* (yn llythrennol 'at-one-ment'; 'making at one') a dyma'r gair a ddefnyddiwyd yng nghyfieithiad Saesneg cyntaf William Tyndale o'r Testament Newydd am y 'cymod' hwn.

Mae achubiaeth 'amdanon ni'; ond mae hefyd 'am Dduw'. Mae diwinyddiaeth Gristnogol yn ystyried ein rôl fel adfeddiant dynol *goddrychol* o weithred ddwyfol *wrthrychol*. Yn a thrwy Grist, mae Duw'n cymryd yr awenau i newid y sefyllfa ddynol, drwy gynnig derbyniad ac iachâd. Eto mae dal angen i bobl eu

derbyn, ymateb iddyn nhw a'u croesawu mewn ymateb goddrychol.

> Cyflawnir achubiaeth yn wrthrychol yng Nghrist; trawsffurfiwyd y byd, ... ac eto mae'r gweithredoedd hyn gan Dduw yn deffro ac yn ennyn ffydd sy'n agor bywyd rhywun i'r greadigaeth newydd y mae Crist yn ei gwneud yn bosibl. (McIntosh, 2008, t. 77)

Yn ogystal â'r gwahaniaeth hwn rhwng (a) gweithred Duw a'r ymateb dynol, defnyddir iaith gyferbyniol wrthrychol a goddrychol hefyd i (b) ddigwyddiad yn y gorffennol, gyferbyn â'r profiad presennol (o achubiaeth); a (c) newid yn Nuw, mewn cyferbyniad â newid mewn agweddau ac emosiynau dynol. Yn achos gwahanol ddealltwriaeth o'r iawn, mater o raddfa yw'r gwahaniaethau hyn, gyda rhai damcaniaethau'n cael eu hystyried yn *fwy* goddrychol neu wrthrychol nag eraill. Tra bo diwinyddion yn aml yn pwysleisio un elfen ar draul y llall, mae nifer yn mynnu dal y ddau bwyslais gyda'i gilydd – er 'nid oes unrhyw ddealltwriaeth o waith iachawdwriaeth Crist yn mynd i integreiddio dimensiynu goddrychol a gwrthrychol mewn ffordd gwbl foddhaol' (Fiddes, 2007, tt. 179-180).

O beth y mae pobl angen cael eu hachub? Mae'r Beibl yn nodi pechod fel problem fawr. Mae diwinyddiaeth yn trin pechod nid yn unig fel gweithred ddynol, ond hefyd fel *cyflwr* o'r galon a'r ewyllys ddynol ('pechadusrwydd', anufudd-dod, mynd ar gyfeiliorn', 'gwrthryfel') ac o gael eich gwahanu oddi wrth Dduw, yn ogystal ag yn label i unrhyw beth sy'n achosi'r sefyllfaoedd hyn. Yn draddodiadol, daeth pobl i feddwl am bechod Adda (gair Hebraeg am 'ddyn') fel gwrthryfel, lle mae'n 'ei roi ei hun ... tu ôl i gefn gras Duw' (Barth, 1966, t. 117). Caiff ei ddehongli'n aml hefyd fel Adda'n troi mewn '*balchder* tuag at ei hun. Aeth ... i blygu i mewn arno'i hun, yn hytrach na phlygu tuag at Dduw'. Y canlyniad yw *euogrwydd*, y mae angen maddeuant iddo a hwnnw'n cael ei gwrdd â ffydd ac edifeirwch ('newid meddwl' a 'dychwelyd' at Dduw). I rai, fodd bynnag, daw *cywilydd* yn lle euogrwydd dynol: 'teimlad dwfn o annheilyngdod' a gwacter, a gwrthod y ffaith na all Duw fyth gredu ynom ni (Inbody, 2005, tt. 172, 183).

Nid dyma'r unig bethau, fodd bynnag, y mae pobl angen cael eu hachub rhagddynt.

> Yn ôl y Beibl ... mae materion eraill fel caethiwed, alltudiaeth, dallineb, eiddilwch, caledwch calon, ac yn y blaen. I'r rhain, nid maddeuant yw'r ateb. Mae pobl sy'n gaeth angen cael eu rhyddhau oddi wrth y Pharoaid sy'n rheoli eu bywydau, mae pobl sy'n alltud angen gadael Babilon a dychwelyd adref, mae pobl ddall angen gallu gweld, pobl sy'n afiach neu'n glwyfus angen iachâd, pobl sy'n alltud angen cymuned. (Borg, 2011, tt. 145-146)

**Straeon a modelau**

Mae'r Efengylau i gyd yn cynnwys adroddiadau helaeth am groeshoeliad Iesu. Mae'r digwyddiad hanesyddol hwn mor wrthrychol ag y gallai unrhyw beth fod, ond mae'r adroddiadau hyn hefyd wedi'u llenwi â dehongliad diwinyddol. Yn Efengyl Marc, er enghraifft, pan 'rhoes Iesu lef uchel a bu farw', cofnodir dau ddigwyddiad arall sy'n mynegi ystyr ddyfnach ei farwolaeth: mae llen y deml yn cael ei rhwygo'n ddwy, ac mae'r canwriad mewn gofal yn dweud 'Yn wir, mab Duw oedd y dyn hwn' (Marc 15:37-39). Mae rhwygo'r llen yn datgelu 'fod lladd Iesu yn golygu fod mynediad at bresenoldeb Duw bellach ar agor' – ar wahân i unrhyw deml neu unrhyw offeiriadaeth Iddewig. Ac mae cri'r

canwriad yn golygu mai 'Iesu, a laddwyd gan yr ymerodraeth [Rufeinig], yw Mab Duw. Nid felly yr ymerawdwr [a hawliodd y teitl iddo'i hun]' (Borg a Crossan, 2008, tt. 150-151).

Cafodd y themâu diwinyddol hyn, ynghyd â llawer eraill, eu mynegi mewn naratif o fath gwahanol, a oedd yn fwy o *stori gosmig* nac adroddiad hanesyddol. Mae Stephen Sykes yn dadlau fod straeon o'r fath, yn cynnwys stori'r ymgnawdoliad yn ogystal â'r iawn, yn 'unigryw ac o reidrwydd yn amserol a dilyniannol'. Mae gan y straeon 'oblygiadau athrawiaethol', ond 'ni ellir canfod eu hystyr heblaw gan yr adroddiad' gan eu bod yn unigryw (ac yn gywir) yn dweud beth yw natur cariad Duw (Sykes 1979, tt. 116, 122). Mae 'hanes cosmig ein gwaredigaeth' yn cynnwys ond yn mynd y tu hwnt i hanes y croeshoeliad, i gynnwys 'gweithredu Duw yn Iesu' ac Iesu fel 'cyfrwng ein rhyddhad', yn tynnu ar ddelweddau sydd eu hunain yn 'naratifau ymhlyg' (Sykes, 1997, tt. 16, 18-25).

Mae amrywiaeth gyfoethog straeon, delweddau a chyfeiriadau'r Testament Newydd yn cynnwys disgrifio Cristnogion fel rhai sy'n cael 'braint mabwysiad' – ac felly yn etifeddion – yn hytrach nag aros yn gaethweision (Galatiaid 4:4-7), wedi eu 'prynu am bris' (1 Corinthiaid 6:20) ac felly wedi'u rhyddhau a'u gwaredu (eu 'dwyn yn ôl'). Yn Marc 10:45, mae Iesu'n siarad am roi ei fywyd ei hun 'yn bridwerth dros lawer'. (Yn y Groeg, mae'r 'dros' yn llythrennol 'yn lle', ond mae rhai yn ei ddeall yn yr ystyr 'er budd'.) Mae'r ysgrythur yn rhoi hanesion yr un mor drawiadol am farwolaeth ac atgyfodiad Iesu fel buddugoliaeth gosmig, nid yn unig dros ei elynion dynol ond hefyd yn erbyn grymoedd goruwchnaturiol pechod a marwolaeth, grym cythreulig deddfoldeb a phwerau angylaidd llwgr yn sefyll y tu ôl i genhedloedd, sydd i gyd yn caethiwo pobl (1 Corinthiaid 2:6-8, 2 Corinthiaid 4:4; Galatiaid 4:3; Effesiaid 2:1-2; Colosiaid 1:15-20, 2 13-15). Gall Cristnogion ymuno ym muddugoliaeth Crist drwy eu rhoi eu hunain o dan warchodaeth yr arwr gorchfygol hwn, yn derbyn buddion ei fuddugoliaeth.

Defnyddir iaith aberthol am Grist hefyd. Yn y Llythyr at yr Hebreaid, mae'r awdur yn dadlau 'heb dywallt gwaed nid oes maddeuant' yn ôl y Gyfraith Iddewig, a bod Crist o'r diwedd 'un waith am byth wedi ymddangos er mwyn dileu pechod drwy ei aberthu ei hun' (9:22, 26). Mae Paul yn bendant yn disgrifio Crist fel yr hwn a osododd Duw gerbron y byd 'yn ei waed, yn aberth cymod [neu 'yn iawn'] trwy ffydd'. (Rhufeiniaid 3:25; cf. 1 Corinthiaid 5:7; 1 Ioan 2:1-2, 4:10). Dyma *wneud iawn* am bechod dynol – 'ei orchuddio', 'cael gwared arno' neu 'ei lanhau'.[1] Roedd yr hen syniad am aberth yn awgrymu bob amser bod yr aberth yn cael ei gynnig fel rhodd i Dduw, mewn rhyw ystyr dros ac ar ran yr addolwyr. Mae'r syniad o 'gynrychiolydd cynhwysol' yn ategu'r thema hon; ac roedd y brenin eneniog a'r Meseia i ddod, yn cael eu hystyried fel cynrychiolwyr pobl Israel, fel yr oedd 'gwas dioddefus' Eseia (Eseia 52:13-53:12) a'r 'un fel mab dyn' yn Daniel 7:13-14. Ystyrid fod Iesu'n cyflawni'r rôl hon nid yn unig i Israel ond i'r eglwys, y rhoddodd ei fywyd drosti.

Cafodd y trosiadau a'r naratifau achubiaeth hyn eu gwneud yn fwy addas at ddibenion esboniad diwinyddol drwy gael eu datblygu'n ystod *o fodelau* mwy sefydlog, systematig a hirhoedlog.[2] Ymgorfforwyd y rhain mewn *damcaniaethau* cysyniadol am sut gallai marwolaeth Crist ddwyn iawn gyda Duw. Maent yn cynnwys edrych ar farwolaeth Iesu fel:

[1] Mae 'dyhuddiant' (*propitiation*) yn dynodi tawelu duwdod blin; ond gwrthrych gwneud iawn (*expiation*) yw pechod, nid Duw.
[2] Mae model hanner ffordd rhwng trosiad a chysyniad haniaethol, technegol.

- *buddugoliaeth* dros y pwerau gelyniaethus y mae angen rhyddhau dynoliaeth oddi wrthynt;
- *aberth* a gynigiwyd ar ein rhan, i olchi'n pechod, gan Grist a ddaeth i gael ei weld fel yr aberth a'r un sy'n rhoi'r aberth, gan gynnig ei hun (mewn undod â ni) iddo'i hun (mewn undod â Duw);
- *pridwerth* a dalwyd i'r diafol, neu hyd yn oed i dwyllo'r diafol;
- *gwneud iawn* am y sarhad a'r drosedd a gyflawnwyd i fawredd Duw gan bechod dynol: un y gall 'neb ond Duw ei wneud' eto 'neb ond dyn ddylai ei wneud', yn ôl Anselm (*Cur Deus Homo?*, llyfr dau, 6);
- cyfiawnhad o'r gyfraith ddwyfol, gan *ddirprwyaeth gosbi* Crist sy'n cymryd y gosb oherwydd pechaduriaid (gweithred y credir ei bod naill ai wedi'i chyfyngu i'r etholedig yn unig neu, mewn egwyddor, wedi'i hehangu'n gyffredinol);
- yr *enghraifft foesol bennaf*: ar y groes, 'arwydd eithaf casineb dyn', dangosir fod cariad Duw yn derbyn dynoliaeth yn ei 'bechadusrwydd mwyaf eithafol a'i atgasedd chwerw' – yn ein cymell a'n grymuso i efelychu [ = gwneud yr un peth drwy ddynwared] y fath gariad (Lampe, 1966, t. 190).

Yn anffodus, mae tueddiad i'r dehongliadau sy'n defnyddio'r modelau hyn feddu ar eu bywyd eu hunain, lle gall trafodaeth haniaethol o drafodion duwiol (yn aml yn amhersonol) golli eu cysylltiadau â digwyddiadau hanesyddol a throsiadau byw'r Testament Newydd. Perygl pellach yw na allai pob model neu ddamcaniaeth fyth wneud mwy nag adlewyrchu *rhan* o'r profiad, delweddau naratifau a throsiadau realiti amlochrog iachawdwriaeth Gristnogol. Ond 'mae dewis trosiad arbennig o blith y rhai sydd ar gael... a'i ddatblygu ar wahân neu ar draul y lleill, yn peryglu cael gafael rhannol ac annigonol ar realiti achubiaeth' (Hart, 1997, t. 190).

Efallai mai dyma pan mad oes un model neu ddamcaniaeth am yr iawn erioed wedi ei ddatgan yn 'ddogma': hynny yw, athrawiaeth (dysgeidiaeth) yr ystyrir iddi gael ei datgelu'n ddwyfol ac felly'n rhwymol ar yr eglwys gyfan. Yn hytrach nag ymdrechu i berffeithio ac amddiffyn unrhyw safbwynt damcaniaethol trosfwaol, gellir disgrifio'r iawn yn well mewn 'trafodaeth aml-fodel' sy'n defnyddio sawl delwedd drosiadol. Wedi'r cyfan, mae damcaniaethau am yr iawn yn 'rhoi'r atebion a roddant oherwydd y cwestiynau maent yn eu gofyn' (Wright, 2007, t. 211). A gall y gwahaniaethau ar draws yr ystod hon o ddeall yr iawn apelio hefyd at brofiadau gwahanol pobl wahanol am achubiaeth Duw, a'u canfyddiadau gwahanol am yr hyn y maen *nhw* angen cael eu hachub rhagddo.

## Dolenni rhyngrwyd

https://www.monergism.com/thethreshold/articles/onsite/atonementmorris2.html (Leon Morris)

https://plato.stanford.edu/entries/christiantheology-philosophy (Michael J. Murray and Michael Rea, Stanford Encyclopedia of Philosophy)

## Pwyntiau trafod

1. Ewch dros y llwybr o brofiad drwy naratif i fodel ar gyfer un damcaniaeth am yr iawn. Beth sy'n cael ei golli a beth sy'n cael ei ennill drwy'r datblygiad hwn?
2. Trafodwch, gan gyfeirio at unrhyw ddwy ddamcaniaeth o'r iawn, honiad Maurice Wiles fod 'hanes y dioddefaint yn cadw'i apêl' ond fod 'unrhyw athrawiaeth am y dioddefaint yn fwy tebygol o godi arswyd'.
3. Yn eich barn chi, pa rai yw'r mwyaf a'r lleiaf 'gwrthrychol' o ddamcaniaethau'r iawn, a pham?
4. Sut gallai Cristion cyfoes amddiffyn y syniad o farwolaeth Crist fel *naill ai* buddugoliaeth *neu* aberth?

## Cyfeiriadau


Barth, K. (1966). *Dogmatics in outline*. London: SCM Press.

Borg, M.J. (2011). *Speaking Christian: Recovering the lost meaning of Christian words*. London: SPCK.

Borg, M.J. and Crossan, J.D. (2008). *The last week: What the Gospels really teach about Jesus's final days in Jerusalem*. London: SPCK.

Fiddes, P.S. (2007). Salvation. In *The Oxford handbook of systematic theology* (pp. 176-196). Eds. J. Webster, K. Tanner & I. Torrance, Oxford: Oxford University Press.

Hart, T. (1997). Redemption and Fall. In *The Cambridge Companion to Christian Doctrine* (pp. 189-206). Ed. C. Gunton, Cambridge: Cambridge University Press.

Inbody, T. (2005). *The faith of the Christian church: An introduction to theology*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.

Lampe, G.W.H. (1966). The atonement: Law and love. In *Soundings: Essays concerning Christian understanding* (pp. 173-191). Ed. A.R. Vidler, Cambridge: Cambridge University Press.

McIntosh, M.A. (2008). *Divine teaching: An introduction to Christian theology*. Oxford: Blackwell.

Sykes, S.W. (1979). The incarnation as the foundation of the church. In *Incarnation and myth: The debate continued* (pp. 115-127). Ed. M. Goulder, London: SCM Press.

Sykes, S.W. (1997). *The story of atonement*. London: Darton, Longman and Todd.

Wright, T. (2007). *Surprised by hope*. London: SPCK.


*Ar hyn o bryd yr Athro Jeff Astley yw Athro Alister Hardy mewn Crefydd a Phrofiad Ysbrydol ym Mhrifysgol Warwick. Mae'n athro anrhydeddus ym Mhrifysgol Durham a Phrifysgol Efrog Sant Ioan ac yn awdur yr* SCM Studyguide to Christian Doctrine (*SCM Press, 2010*) *a* What Do We Believe? Why Does it Matter? (*SCM Press, 2016*).

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 14 Hydref 2018
© Clive Marsh

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Crefydd a Diwylliant Poblogaidd

Clive Marsh

*Mae helpu myfyrwyr i ddeall sut mae crefydd 'a' diwylliant poblogaeth yn cysylltu yn codi cwestiynau pryfoclyd o'r cychwyn. Mae'r gair 'a' yn awgrymu eu bod ar wahân, fel pe nad oes dim crefydd mewn diwylliant poblogaidd, a bod crefydd rywsut ar wahân i ddiwylliant. Felly, gellir cymryd fod diwylliant poblogaidd yn 'seciwlar' neu (hyd yn oed yn waeth) yn niwtral o safbwynt crefydd neu werthoedd. O ongl arall, gall diwylliant poblogaidd ymddangos yn fwy diddorol (neu'n fwy difyr) na chrefydd – yn enwedig i fyfyrwyr anghrefyddol. Neu gellid barnu ei fod yn tynnu sylw neu'n beryglus i fyfyrwyr crefyddol, neu i fyfyrwyr o deuluoedd crefyddol sy'n ymgodymu â'r tensiwn, a'r gwahaniaeth llwyr, rhwng 'bywyd gartref' a 'bywyd yn yr ysgol/coleg'. Yn yr erthygl hon rwyf yn cynnig myfyrdodau syml ac awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â materion o'r fath, gan fy mod yn teimlo'n bendant ei bod yn hollbwysig i fyfyrwyr fod yn edrych yn ofalus ar y berthynas – ffrwythlon ac adeiladol ond sydd hefyd yn creu straen a phroblemau – rhwng y ddau 'fyd' yma.*

*Cyswllt â'r fanyleb:*
*AQA UG Uned E: Crefydd, Celfyddyd a'r Cyfryngau: Pynciau 3 a 4.*

## Crefydd *mewn* diwylliant poblogaidd: O *Coronation Street* i *The Big Bang Theory*

Mae'r ddelwedd o grefydd yn niwylliant poblogaidd Prydain wedi dod i raddau helaeth yn sgil y portread o offeiriadon/ gweinidogion Cristnogol, neu gymeriadau eithafol neu od (weithiau cymysgedd o bob elfen). P'un ai mewn comedi (*Dad's Army, Vicar of Dibley, Father Ted, Rev*) neu ddrama (Revd Paul Coates yn *Broadchurch*, Father James yn y ffilm *Cavalry* yn 2014 neu Father Michael yn y gyfres deledu *Broken*), mae'r cymeriadau clerigol yn aml yn ecsentrig, sinistr, amwys neu'n ofidus. Er eu bod yn aml yn gymeriadau da yn y pen draw, yr elfennau gofidus sydd fwyaf amlwg. Anaml maen nhw'n syml neu'n anghymhleth. Gan nad yw undonedd yn gwneud drama dda neu deledu gafaelgar mae hyn yn creu anhawster. Tra ceir

portread achlysurol o weinidogaeth ddigyfnewid a'i harwyddocâd ddyddiol hanfodol – 'Reverend Alan' Mark Williams yn *Anita and Me*, er enghraifft – mae'r rhain yn gymharol brin. Mae crefydd felly (ac ar hyn o bryd rwy'n cyfeirio at Gristnogaeth yn unig, fel y brif grefydd yn ôl nifer yn y DU) yn dod yn destun sbort, neu'n fater o ing mawr. Nid yw hyn yn fwy amlwg nag mewn ffilmiau fel *The Magdalene Sisters* neu *Philomena*, lle mae'r eglwys yn cael ei phortreadu'n uniongyrchol fel ffynhonnell neu gysylltiad ag ymddygiad camdriniol.

Mae portreadu offeiriadon da gyda bywydau trwblus yn y presennol neu'r gorffennol o leiaf yn ffordd o ddadlau fod drama gyfoes yn cyflwyno pobl go iawn fel arweinwyr crefyddol. Fodd bynnag, y tu hwnt i gymeriadau offeiriadol, ychydig iawn o gymeriadau Cristnogol a geir mewn drama ffuglen. Mae hyn yn gwneud cymeriad Dot Cotton yn *EastEnders* (BBC) hyd yn oed yn fwy trawiadol. Eto, mae'n fater o ffigwr crefyddol sy'n seicolegol anarferol. Mae hi'n gymeriad sy'n smocio fel simdde, yn hel straeon, yn dyfynnu o'r Beibl ac er bod hyn yn ei gwneud yn agos-atoch, mae'n codi cwestiynau i'r gwyliwr am sut mae gwahanol elfennau ei hymarfer yn plethu i'w gilydd.

Y tu hwnt i Gristnogaeth, mae diwylliant poblogaidd Prydeinig wedi bod yn fwy araf yn cynnig cymeriadau crefyddol i'r gwylwyr uniaethu â nhw. Mae *Citizen Khan* yn parhau â'r thema ddoniol, yn rhoi cyfle i Islam ymddangos ynghanol bywyd bob dydd, er gyda digon o stereoteipio hiliol wrth fynd heibio. Roedd *Bodyguard* yn chwarae â throsiadau cyfarwydd, yn cyfnewid gwyrdroi argyhoeddiad crefyddol i hyrwyddo terfysgaeth, ar yr un pryd yn ceisio tanseilio'r syniad am fenyw eilradd drwy gynnig cymeriad benywaidd 'cryf': er yn beiriannydd galluog iawn, roedd y cymeriad cryf yn hunan-fomiwr (a fethodd) ac a aeth ymlaen i adeiladu bomiau. Mewn cyferbyniad llwyr â'r darlun hwn o Islam, eto'r un mor ddadleuol, oedd stori ar *Coronation Street* yn ddiweddar yn portreadu Mwslim lesbiaidd. Gellid ystyried hyn yn ddiangen o bryfoclyd neu'n herfeiddiol, neu'n ddarn dewr o raglennu i ddod â thrafodaeth bwysig i'r agored sy'n berthnasol i un o'r prif gymunedau crefyddol yn y DU.

Problem fawr gyda phob portread diwylliannol poblogaidd fel hyn – cadarnhaol neu negyddol, ac o ba draddodiad ffydd bynnag – yw nad oes digon o amser yn aml i weld sut mae crefyddusrwydd y cymeriadau yn rhan o fywyd pob dydd. Efallai mai *Rev* a *Broken* sy'n herio'r casgliad hwnnw orau. Er eu bod yn canolbwyntio ar fywyd offeiriadol, maent o leiaf yn mynd o dan groen galwadau'r weinidogaeth mewn cyd-destun trefol dyddiol.

*Yn addysgol, fodd bynnag, byddai'n werth archwilio beth yw'r manteision a'r anfanteision o archwilio crefydd ac arferion crefyddol drwy edrych ar bortreadau o'i harweinwyr. Gallai hyn yn ei dro wahodd trafodaeth am sut y gwelir arweinyddiaeth mewn crefydd, ar hyn o bryd, ac a yw'n cael ei ystyried yn broffesiwn urddasol neu ddeniadol ai peidio*. (A yw sgyrsiau gyrfaoedd yn sôn am fynd yn rabi, yn weinidog/pastor/offeiriad, neu imam?)

Ochr arall yr Iwerydd, roedd math hollol wahanol o raglen gomedi (a ddaeth i ben ar ôl ei 12fed cyfres yn 2019) yn cynnig gogwydd gwahanol ar rôl crefydd mewn bywyd dyddiol. Er yn bell o fod yn nodwedd allweddol yn y gyfres, mae cefndiroedd crefyddol rhai o brif gymeriadau *The Big Bang Theory* yn werth eu nodi serch hynny. Mae Howard Wolowitz (Simon Helberg) yn ymgodymu â'i Iddewiaeth, ond mewn ffordd barchus. Nid yw Hindŵaeth Rajesh Koothrappali

(Kunal Nayyar) yn cael ei wahaniaethau'n bendant o'i wreiddiau Indiaidd, eto mae hyn ynddo'i hun yn adlewyrchu her i ffyrdd Gorllewinol, lle gall cysylltiad crefyddol gael ei weld yn fwy fel dewis rhesymegol na'n rhan o hunaniaeth ethnig rhywun. Mae Mary Cooper (Laurie Metcalf), mam yr anghrediniwr di-flewyn-ar-dafod rhyfedd ac anodd Sheldon Cooper (Jim Parsons) yn ymgorffori efengyliaeth Gristnogol Texas. Mae Sheldon yn gwneud hwyl am ben 'ffydd syml' ei fam ac eto yn ogystal â mwynhau ei eiriau sarhaus ond ffraeth, mae'r gomedi yn llwyddo hefyd i gadw parch at ffydd ei fam a'r elfennau o ddoethineb ymarferol sydd ynddi.

*Defnyddioldeb addysgol y gyfres yw nid yn gymaint fod crefydd yn amlwg ond y ffaith fod llinynnau o wahanol gefndiroedd ac arferion crefyddol yn cael eu plethu ag agweddau o fywyd pob dydd.* Mae'r 12fed rhan o Gyfres 8, 'The Space Probe Disintegration', er enghraifft, yn gweld Howard a Rasesh mewn trafodaeth am bwrpas mynd i'r deml i weddïo. Mae crefydd *mewn* diwylliant poblogaidd yn aml, felly, yn methu â chynnig llwybrau hawdd i weld crefydd fel rhywbeth normal, neu bob dydd, er bod yr enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd yn werth eu nodi a gweithio gyda nhw. Fel arall, mae'r agweddau mwy ecsentrig, eithafol neu broblemus o grefydd yn fwy tebygol o ymddangos.

### Diwylliant poblogaidd *fel* crefydd: Profi cerddoriaeth

Gellir gweld cysylltiad rhwng diwylliant poblogaidd â chrefydd mewn ffyrdd eraill, mwy anuniongyrchol, fodd bynnag. Mae'r cwestiwn a yw mathau o ddiwylliant poblogaidd yn *dod yn lle* crefydd mewn diwylliant Gorllewinol yn un sydd wedi bod o gwmpas ers tro. Gellir ei archwilio orau drwy'r ffyrdd y mae cerddoriaeth boblogaidd, a'i harferion poblogaidd, yn gweithredu ar draws diwylliant Gorllewinol (Cavicchi, 1999).

Bu Vaughan S. Roberts a minnau yn ymchwilio i hyn mewn cryn fanylder (Marsh & Roberts, 2013). Ein nod oedd dangos sut mae rhoi sylw i ymgorfforiad, profiadau trosgynoldeb, teimlad o gymuned ac ymddygiad defodol i gyd yn digwydd o amgylch yr arfer o wrando ar gerddoriaeth. Efallai nad ydynt yn digwydd mewn ffyrdd arbennig o drefnus neu strwythuredig, ac mae angen mwy o archwilio i ganfod a yw'r pedair elfen wir yn gweithredu *fel* crefydd i ddefnyddwyr cerddoriaeth ymroddedig. Ond, â dweud y lleiaf, mae'r pedair elfen yn ffurfio ffordd o fyw, ac yn dechrau edrych fel set o arferion sy'n gwneud rhyw fath o ysbrydolrwydd. P'un ai bod myfyrwyr yn hunan-uniaethau fel 'crefyddol' ai peidio, mae'n bosibl eu galluogi i archwilio sut mae eu harferion gwrando ar gerddoriaeth yn ffurfio, a sut mae'r rhain yn sail i'w penderfyniadau (moeseg), eu bywyd mewnol (datblygiad ysbrydol), eu rheolaeth ar eu hwyliau (deallusrwydd emosiynol) a'u perthnasau sy'n datblygu (cymdeithasoldeb). Yn ychwanegol, gall cerddoriaeth eu helpu i daro ar ddimensiwn 'Arall' i fywyd dynol, drwy brofiad esthetig ('teimlad o drosgynoldeb').

Mae'n debyg na fydd yr un o'r arferion neu'r profiadau hyn yn cael eu galw'n grefyddol gan y rheini sy'n eu dilyn a'u mwynhau. I fyfyrwyr crefyddol, fodd bynnag, gallent orgyffwrdd â'u cred a'u hymarfer crefyddol penodol. Gallai nodweddion fel hyn o ddefnydd cerddoriaeth fod yn 'debyg i grefydd' yn eu ffurf neu gynnwys a galluogi myfyrwyr – p'un ai'n grefyddol ai peidio – i gael cipolwg o brofiad ar 'sut beth' yw crefydd a sut mae'n 'gweithio'.

Wrth gwrs, os nad yw cerddoriaeth yn gweithio i fyfyrwyr unigol fel enghraifft o

ble gall diwylliant poblogaidd fod yn gweithio mewn ffordd 'fel crefydd', yna gellir gofyn a oes pethau eraill sy'n cyfateb (chwaraeon – chwarae neu wylio, gweithgareddau ffitrwydd, comics a nofelau comics, gemau fideo, mynd i'r sinema).

**Absenoldeb crefydd: Sut mae ymateb?**

Un o agweddau mwyaf dyrys archwilio 'crefydd a diwylliant poblogaidd' yw tueddiad y rhai sydd eisoes yn grefyddol i fod eisiau gweld deunydd 'crefyddol', 'diwinyddol' neu 'ysbrydol' ym mhob man. Mewn cylchoedd Cristnogol, mae deunyddiau diwylliannol poblogaidd (caneuon, clipiau o sioeau teledu neu ffilmiau) yn cael eu defnyddio i ddarlunio syniadau neu gredoau diwinyddol. ('Onid ydi hyn yn eich atgoffa am y gred Gristnogol mewn x neu y ...?'). Gall hyn fod yn gywir neu beidio mewn achosion unigol ond yn aml nid dyma'r ffordd fwyaf syml o 'ddefnyddio' deunydd diwylliannol poblogaidd. Yn wir mae'r gair 'defnyddio' yn ddadlennol ei hun. Mae'n awgrymu fod traddodiad crefyddol yn dwyn deunydd at ei ddibenion ei hun heb barchu naill ai fwriad y sawl a greodd y gwaith artistig/ diwylliannol (os gellir nodi hynny), neu'r hyn mae'r 'testun' (ffilm, cân, rhaglen) yn ei gynnig yn gyffredinol. Mewn geiriau eraill, gall fod y gweithiau eu hunain yn gwrthsefyll yr hyn yr hoffai pobl grefyddol iddyn nhw fod yn dweud.

Wedi dweud hynny, mae diwylliant poblogaidd yn aml mor ofalus ynglŷn â bod yn amlwg grefyddol fel ei fod yn aml yn gwasgu crefydd allan o ble gallai ymddangos yn arferol. Mewn operâu sebon neu ddramâu eraill, felly, gall fod digon o sefyllfaoedd neu storïau ble byddai rhywun yn disgwyl, neu'n gallu dychmygu'n hawdd, pobl grefyddol yn bresennol ynddynt, yn cynnig dehongliadau crefyddol/ diwinyddol am y mater dan sylw. Eto nid yw'r rhain yn bresennol o gwbl. Mae credinwyr cyffredin yn amlwg yn eu habsenoldeb ar draws y celfyddydau a diwylliant poblogaidd yn gyffredinol.

Er y gellid dadlau (yn negyddol) fod hyn am fod crefydd yn beth mor eithriadol i ddal gafael arno yn y Gorllewin gwaraidd, technocratig, rhesymol, byddai safbwynt o'r fath yn ddilornus o fyfyrwyr crefyddol, a byddai, mewn gwirionedd erbyn hyn yn wahanol i fwyafrif poblogaeth y byd, y rhan fwyaf ohonynt yn arddel rhyw fath o gred grefyddol. Gallai'r safbwynt i 'y tu hwnt i grefydd' (o bob math) fod yn iawn, wrth gwrs. Ond byddai'n farn rhy gynamserol. Yn y cyfamser, mae angen archwilio mewn ffyrdd eraill agweddau Ewro-ganolog, Hemisffer y Gogledd, Gorllewinol at fywyd dyddiol sy'n awgrymu neu'n tybio dewis absenoldeb crefydd, fel pe mai dyma'r dull mwyaf synhwyrol o fyw. Mae *unrhyw* ddrama deledu neu ffilm, felly (e.e. hanesyddol, trosedd, cynnwrf, rhamantus, rhyfel) sy'n cyflwyno plot neu sefyllfa bywyd lle y byddai modd dadlau y *gallai* cymeriadau crefyddol (o unrhyw draddodiad crefyddol) fod, neu wedi bod, yn bresennol, yn dod yn ffordd o fynd i'r afael â'r pwnc 'diwylliant poblogaidd a chrefydd'. Beth fyddai cymeriadau crefyddol wedi gwneud? Pa safbwynt fydden nhw wedi cymryd? Pam nad ydyn nhw wedi cael eu cynnwys?

Rhaid cyfaddef y gallai trafodaethau gyda'r myfyrwyr ganolbwyntio'n rhy gryf ar gwestiynau moesegol yn unig. Dyma fyddai anfantais awgrymu fod crefyddau'n bodoli'n bennaf i lywio barn foesegol pobl. Byddai'n bwysig i diwtoriaid/athrawon ddangos mewn ffyrdd ymarferol y ffordd y mae

crefyddau'n 'gweithio' i ffurfio barn eu dilynwyr a'u hagweddau at fywyd, nid yn unig drwy ddarparu 'gosodiadau i fyw wrthynt' ond drwy ffurfio cymeriad, darparu cymuned i berthyn iddi, a meithrin arferion meddylgar/myfyriol a 'ffordd o fod' yn y byd.

**Sylwadau clo**

Mae'r tri dull hwn o edrych ar bwnc 'diwylliant poblogaidd a, fel a heb grefydd', yn dangos, felly, ffyrdd gwahanol i'w troedio i edrych ar ble mae crefydd yn ymddangos a ddim yn ymddangos ym mywydau dyddiol dinasyddion y Gorllewin. Drwy hynny, maent yn ffyrdd o archwilio sut mae cymdeithas seciwlar yn ymffurfio, a'r cyfrifoldebau sydd gan bob dinesydd – p'un ai'n grefyddol ai peidio – i edrych ar ymhle a sut mae crefydd yn ymddangos, ac a yw bywyd bob dydd, a'i fywyd artistig a diwylliannol yn arbennig, yn neu ddim yn cydnabod y crefyddoldeb pendant sydd yno.

## Dolenni rhyngrwyd

- https://www.theguardian.com/tv-and-radio/2011/nov/08/religion-television-rev-father-ted (*Guardian* article by Mark Lawson)
- https://www.religiousstudiesproject.com/podcast/drawn-to-the-gods-religion-comedy-and-animated-television-programs/ (trawsgrifiad o gyfweliad 2017 gyda David Feltmate, awdur astudiaeth o grefydd yn *The Simpsons, South Park* and *Family Guy*)

## Pwyntiau trafod

1. I ba raddau y gall crefyddau chwerthin am eu pennau eu hunain?
2. Faint o ddiddordeb ddylai pobl grefyddol gymryd yn y gymdeithas artistig a diwylliannol ehangach y maent yn rhan ohoni? Pam?
3. Sut ydych chi'n asesu'r portread o gymeriadau amlwg grefyddol mewn dramâu teledu, radio a ffilm y gwyddoch amdanynt? Ar ba sail ydych chi'n dod i'ch barn?

## Cyfeiriadau a darllen pellach

Cavicchi, D. (1999). Tramps like us: Music and meaning among Springsteen fans. Oxford: Oxford University Press.

Hoover, S. (2006). Religion in the media age. London: Routledge.

Lyden, J.C. (2003, 2nd ed. forthcoming 2019). Film as religion: Myths, morals, and rituals. New York: New York University Press.

Lyden, J.C., & Mazur, E. (Eds.) (2015). The Routledge companion to religion and popular culture. London: Routledge.

Lynch, G., Mitchell, J., & Strhan, A. (Eds.) (2012). Religion, media and culture: A reader. London: Routledge.

Partridge, C. (2016, 3rd ed.). Religion and popular culture. In Religions in the modern world (pp. 511-149). Eds. L. Woodhead, C. Partridge & H. Kawanami. London: Routledge.

Marsh, C., & Roberts, V.S. (2013). Personal Jesus: How popular music shapes our souls (Ada, Michigan: Baker Academic).

*Mae’r Athro Clive Marsh yn Bennaeth Canolfan Vaughan ar gyfer Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Caerlŷr, ac yn Gymrawd Ymchwil rhan-amser yn Sefydliad Addysg Ddiwinyddol Ecwmenaidd Queen’s, Birmingham.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 14 Hydref 2018
© Hayley Matthews

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# ‘Impersonating Beyoncé is Not Your Destiny, Child’: Myfyrdodau ar Ddiwinyddiaeth Ffeministaidd

Hayley Matthews

*Mae’r erthygl hon yn edrych ar yr ystod o safbwyntiau diwinyddol Cristnogol ar rywedd (gender).*

*Cysylltiadau â’r fanyleb:*
*AQA   Cristnogaeth, Duw: Iaith rhyw benodol am Dduw, safbwyntiau ffeministaidd Cristnogol; Cristnogaeth, rhywedd a rhywioldeb.*
*EDEXCEL   Sylfeini/Cristnogaeth: yr athrawiaeth Gristnogol am Dduw; Ymchwiliad/ Moeseg: Cydraddoldeb a’r byd modern.*
*OCR   2c Datblygiadau mewn Meddwl Crefyddol: Agweddau ffeministaidd; 5 Cymdeithas: Rhywedd a Chymdeithas; Rhywedd a diwinyddiaeth.*
*CBAC (=EDUCAS)   Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth; Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol, C. Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu. Diwinyddiaeth ffeministaidd a rôl newidiol dynion a menywod.*

**Cyflwyniad**

Mewn byd lle mae RuPaul yn cael y fedal aur am golur menywod, wrth i Freninesau drag wisgo’n fwy moethus na’r gweddill ohonom, mae benywdod wedi’i fodelu ar barodïau dros ben llestri o ysblennydd o fenywdod i safon sy’n dal i gael ei osod gan ddynion. Mae merched ifanc yn gwisgo blew amrannau a allai ysgubo lloriau cysegredig Palas Buckingham lle mae Pen Goruchaf Eglwys Loegr, y Frenhines Elisabeth II, mewn cyferbyniad llwyr, wedi byw drwy newidiadau ysgytwol yn arweinyddiaeth y rhywiau gydag urddas tawel a chynnil. O ganlyniad, mae merched ifanc yn gweld y llwybr i fenywdod yn un sy’n llawn eithafion: wrth i swffragetiaid a majoretiaid gystadlu ag athletwyr a gofodwyr i’w temtio tuag at hawl merch i wneud ac i fod beth bynnag mae’n ei ddymuno.

I fenywod Cristnogol, mae’r frwydr at hunaniaeth yn fwy anodd fyth. Dim ond yn ei phedwaredd flynedd yn y swydd y mae’r esgob benywaidd sydd wedi gwasanaethau hiraf yn Eglwys Loegr. Fodd bynnag, mae’r Eglwys Gatholig wedi gorchymyn na all menywod yn eu

hanfod fod yn offeiriadon. Mae diwinyddion ffeministaidd wedi ceisio herio diwinyddiaeth batriarchaidd etifeddol fel hyn ers yr 1960au, eto’n aml cânt eu cymharu’n anffafriol wrth i’w meddylfryd sy’n blaguro gael ei gyferbynnu â chanrifoedd o athrawiaeth hirhoedlog a dwfn, a’i stori ef (‘his’story). Yn yr erthygl hon, byddwn yn edrych ar yr ystod o safbwyntiau diwinyddol ar rywedd.

**Dealltwriaeth Gatholig draddodiadol**

Mae’r safbwynt Catholig etifeddol sy’n sail i lawer o feddylfryd Cristnogol yn cael ei amlinellu’n fanwl yn y *Mulieris dignitatem* (Y Pab Ioan Pawl II, 1988). Dogfen fanwl yw hon sy’n rhoi dehongliad ysgrythurol o fenywod a dynion fel rhai a grëwyd ‘yn gyfartal ond yn wahanol’, hynny yw, o werth cyfartal (cydraddoldeb) ond gyda rolau gwahanol (cyflawnder = cyflenwi ei gilydd).

Mae’r safbwynt diwinyddol hwn yn rhannu gwrywdod a benyweidd-dra yn ddau safle biolegol gwahanol sydd ddim yn gorgyffwrdd nac yn darparu ar gyfer eithriadau. Mewn geiriau eraill, ni ddylai dyn feddu ar nodweddion ‘benywaidd’ ac i’r gwrthwyneb. Mae ymlynwyr diwinyddiaeth cyflawnder yn awgrymu fod y ddealltwriaeth ddwyrannol yma o rywedd wedi’i phriodoli a’i chadarnhau gan genhedlu corfforol: gall menywod eni plant ond ni all dynion.

Felly, mae menywod wedi cael eu deddfu i gario plant a gwneud cartref, yn yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel ‘y drefn naturiol’. Yn y cyfamser, mae dynion, sy’n rhydd o ddyletswyddau corfforol fel hyn, i fod i arwain yr eglwys (a chymdeithas) a hefyd y cartref, a all ymddangos yn rhyfedd o ystyried y rôl a roddodd Duw i fenywod eni plant ac edrych ar ôl y cartref. Defnyddir geiriau Sant Paul yn 1 Timotheus 2:12 i ategu’r safbwynt hwn, mewn ffordd y mae Sarah Schneiders yn ei disgrifio fel ‘prawf-ddarllen patriarchaeth’ (Schneiders, 1982): ‘Ac nid wyf yn caniatáu i wragedd hyfforddi, nac awdurdodi ar y gwŷr; eu lle hwy yw bod yn dawel’.

Mae’r safbwynt hwn yn rhoi pwyslais arbennig ar allu unigryw’r fenyw i fagu plentyn yn y groth (*in utero*). Ond wrth ddisgrifio Mair (gan ddefnyddio’r term hynafol) fel *theotokos* (‘cariwr Crist’) mae’r Pab Ioan Pawl yn baradocsaidd yn troi wyneb i wared y syniad fod menywod yn ddarostyngedig i arweinyddiaeth dynion a’u bod yn cymryd rhan weithredol o bwysigrwydd achubyddol; daeth Iesu yn gnawd drwy fenyw a heb eu ‘ie’ hi ni fyddai yna Grist. Nid rhan Mair oedd gwylio (fel y bugeiliaid) neu’r rheini a anfonwyd i addoli (y doethion) - nac, yn wir fel Joseff: yr un unigolyn arhosodd yn dawel drwy’r adeg y chwythodd Crist i mewn ar ddynoliaeth ar ffurf baban bach. Yn hytrach, mae’r cyfan a ddisgrifir fel ‘cyflawnder menywod’ yn cael ei droi ar ei ben drwy ei chydsyniad hi, ei sgwrs bersonol â negesydd Duw (yr Angel Gabriel) a’i swydd barhaus yn dod â’r dyn bach i aeddfedrwydd - swydd a roddwyd yn llaw merch ‘yr un y rhoddodd Duw ei ffafr ynddi’ (Luc 1:28).

Ar ben hynny, wrth gario’r Crist *in utero*, mae Mair yn cario’r Crist oddi mewn iddi – roedd hi wedi’u huno yn gorfforol ac ysbrydol â Duw mewn ffordd na wnaeth yr un bod dynol arall. O ganlyniad, mae rôl Mair fel Mam Duw wedi galluogi dwyfoli rôl menywod mewn cenhedlu. Yn wir, i rai, mae Mair ei hun wedi’i dwyfoli gan yr undeb corfforol unigryw a brofodd tra’r oedd yn feichiog ag Iesu. (Disgrifiodd y Pab Ioan Pawl II hyn fel ‘dyrchafiad goruwchnaturiol i undod â Duw’.)

Drwy wrthdroi melltith Efa, felly, daw Mair fel prototeip nefolaidd menywod) yn archdeip benywaidd yn seiliedig ar fod yn fam yn unig. A phrofodd hyn i fod yn cyfyngu ar ferched, gan fod diwinyddion

gwrywaidd wedi gwneud y posibilrwydd mai cario plentyn fyddai unig bwrpas menyw. Felly, daeth y Pab i'r casgliad fod Mair yn 'dynodi llawnder perffeithrwydd "yr hyn sy'n nodweddiadol o fenyw", o'r "hyn sy'n fenywaidd" ... [hi yw'r] archdeip, o urddas personol menywod' (y Pab Ioan Pawl II, 1988, II, 5).

**Beirniadaethau ffeministaidd**

Byddai cymdeithas fodern y Gorllewin yn cael trafferth â'r cysyniad hwnnw, pan mae'r rhan fwyaf o famau biolegol yn dychwelyd i'r gwaith o fewn blwyddyn gyntaf genedigaeth eu plentyn ac mae rhai tadau'n blaenoriaethu gofal plant dros wneud incwm (Gatrell, Burnett, Cooper, & Sparrow, 2015). Mae bod yn rhiant ac ennill cyflog yn cael eu rhannu bellach, er mai merched sy'n dal i ysgwyddo baich (60%) y gwaith domestig di-dâl yn y cartref (ONS, 2016).

Mewn cyferbyniad, mae diwinyddion ffeministaidd megis Mary Daly (1928-2010) a Rosemary Ruether (g. 1936) yn defnyddio esboniad hollol wahanol ar gyfer deall a throsi'r ysgrythurau, sydd – er yn gymharol ddiweddar o'i gymharu â diwinyddiaeth andro-ganolog etifeddol yn cynnig goleuni heriol. Er enghraifft, mae Daly yn rhybuddio rhag gwneud dim nwy na chyfnewid rhagenwau gwrywaidd am rai benywaidd, rhag ofn mai'r cyfan wnawn yw ail-greu Duw yn yr un drych-ddelwedd unigryw, rhyw-ddeuaidd, sefydlog (Daly, 1973).

> Mae craidd y drafodaeth am ddiwinyddiaeth ffeministaidd yn gorwedd yn ei apêl at yr ymwybyddiaeth ffeministaidd fel ei awdurdod uchaf ... mae diwinyddion ffeministaidd mewn perygl o wneud dim mwy na chael ideoleg newydd yn lle'r hen un. (Miller and Grenz, 1998, t. 175)

Eto mae Daly'n symud y tu hwnt i 'ail-enwi' neu hyd yn oed 'ail bennu rhyw' i Dduw ac yn lle hynny'n gofyn 'Pam yn wir fod yn rhaid i "Duw" fod yn enw? Pam ddim berf – y mwyaf gweithredol ac egnïol o'r cyfan.' Mae hi'n dweud fod ffeministiaeth yn weithred fyw o ryddhau a chymryd risg; cymryd y risg o fod eich hun waeth beth yw'r 'rôl' fenywaidd y'ch ffurfiwyd ynddi, gan ysgrifennu 'y potensial creadigol ynddo'i hun mewn bodau dynol yw delwedd Duw.' (Daly, 1973, t. 33.).

O fynd â hyn i'r pen draw, mae Daly yn pleidio gwneud i ffwrdd â ffigur Tadol, Tebyg i Dduw fel gwrthrych addoliad, gan gysylltu yn lle hynny â rhythm bod, sy'n amlwg drwy'r creu a dynolryw, y gwelodd hi'n arbennig yn rhyddhad merched. Disgrifiodd Daly ddicter menywod dan ormes fel barn ddwyfol, gan honni mai llid ffeministaidd yw digofaint Duw yn siarad ei hun mewn ymchwydd o fod. Ynni creadigol yw datguddiad Duw felly, yn cynhyrchu digwyddiad lle mae merched yn cymryd rhan yn eu rhyddhad eu hunain. Nid ydym yn disgwyl cael ein hachub gan Grist-Dywysog, rydym yn ymuno â'r Dwyfol, yn rhyddhau'r Ysbryd ac yn rhyddhau'n hunain. Bod (Be-ing) yw Duw a thrwy fod ein hunain rydym yn rhan o hunan Duw gyda'r un undod a brofodd Mair fel y Cariwr-Duw.

Mae Rosemary Ruether yn cymryd safbwynt gwahanol. Gan enwi'r dwyfol fel Duw/ies, mae Ruether yn gwrthdroi patriarchaeth, yn adennill iaith andro-ganolog a'r traddodiad Iddewig-Gristnogol mewn ffordd systematig. Er ei bod yn arddel Duw fel 'Sail Pob Bod' (fel Daly, mae hi'n ddyleudus iawn i ddiwinyddiaeth Tillich), mae Ruether yn ail-ddychmygu Duw fel y groth gosmig sy'n cynhyrchu pob bywyd. Mae hi'n dadlau dros ideoleg ffeministaidd, yn cydnabod fod Iesu wedi torri tir newydd o ran perthynas rhwng y rhywiau,

cyfiawnder cymdeithasol ac arfer crefyddol:

> Os yw perthnasau gorchfygol a dinistriol i’r ddaear yn cydberthyn i ryw, dosbarth, a goruchafiaeth hiliol, yna ni all perthynas iachaol ddigwydd dim ond drwy ddatrysiadau technolegol. Mae gofyn am aildrefnu cymdeithasol i ddod â chydberthynas deg a chariadus rhwng dynion a merched, rhwng hiliau a chenhedloedd, rhwng grwpiau sy’n cael eu gosod mewn haenau cymdeithasol ar hyn o bryd, sy’n amlwg mewn anghyfartaledd mawr mewn mynediad at fodd bywyd. Yn fyr, mae’n mynnu’n bod yn siarad am eco-gyfiawnder, ac nid yn unig am arglwyddiaeth dros y ddaear fel pe bai hynny’n digwydd heb gysylltiad ag arglwyddiaeth gymdeithasol. (Ruether, 1994, t. 3)

Roedd Ruether yn canolbwyntio ar y traddodiad Doethineb, neu *Sophia*, fel benyweidd-dra Duw; gyda Christ ei hun yn ymgnawdoli’r Doethineb hwnnw, felly’n ymgorffori’r gwrywaidd a’r benywaidd, tra bod yn gwbl Dduw ac yn gwbl ddynol. Mae Ruether yn systematig yn gwrthdroi’r traddodiadau patriarchaidd etifeddol; tra bod Daly yn symud y tu hwnt iddynt i mewn i ailddychymyg cosmolegol o’r dwyfol sy’n perthyn nemor ddim, os o gwbl, i ddiwinyddiaeth Iddewig-Gristnogol etifeddol. I rai merched, bu hyn wir yn rhyddhaol; tra bod eraill yn teimlo’i fod yn bwrw Cristnogaeth fel yr ydym ni yn ei adnabod o’r neilltu yn llwyr.

**Casgliad**

Tra bod nifer o Gristnogion yn dal i lynu wrth ddehongliad andro-ganolog o’r ysgrythurau, mae diwinyddion ac addolwyr eraill yn ail-ymweld â’r ddysgeidiaeth Gristnogol y maent wedi’i hetifeddu. Yn dychwelyd at yr ysgrythurau gydag ‘esboniad o amheuaeth’, wedi’u harfogi â mynegeion a sylwebaethau o amrywiaeth eang o draddodiadau,[1] mae’r arfer hwn yn adleisio Paul Ricoeur, a ysgrifennodd, ‘mae’n ymddangos i mi fod esboniadau’n cael eu hysgogi gan y cymhelliad dwbl hwn: parodrwydd i amau, parodrwydd i wrando; adduned trylwyredd, adduned ufudd-dod’ (Ricoeur, 1970, t. 27).

Mae’r trylwyredd hwn, a’r parodrwydd i ddarllen o dan y testun, yn galluogi lleisiau menywod gyda sgiliau dehongli menywod a phrofiad menyw o’r byd i gwestiynu’r testunau mewn ffyrdd newydd. Mae menywod yn cymharu eu profiadau amrywiol nhw o berthynas â Duw, yr eglwys a/neu’r ffydd Gristnogol gyda’i gilydd a gyda daliadau athrawiaethol etifeddol. Nid yw trafodaethau rhywedd-benodol yn cael eu derbyn bellach fel rhai gwaharddiadol ond yn hytrach fel rhai disgrifiadol a hynny’n benodol gymdeithasol-hanesyddol.

Ar ben hynny, mae newidiadau cymdeithasol yn parhau i herio normau rhywedd ‘beiblaidd’ wrth i fenywod wireddu eu hunain drwy ystod eang o ymdrechion academaidd, proffesiynol, byd y campau, galwedigaethol ac artistig yn ogystal â – i rai – dod yn wragedd a/neu’n famau. Mae datblygiadau mewn meddygaeth atgynhyrchu wedi gwneud y rheidrwydd beiblaidd o gorff merch i genhedlu yn bwynt dadleuol, pan mae benthyg croth (surrogacy), mabwysiadu a theuluoedd cyfun wedi newid am byth y ffordd y gall teuluoedd gael eu llunio. Yn wir, mae rhai dynion a menywod yn dewis anffrwythlonder meddygol gwirfoddol gan nad ydynt yn dymuno cenhedlu o gwbl, ac mae cyplau hoyw, lesbiaidd, deurywiol

[1] Er enghraifft, mae tua ugain ffurf o ffeministiaeth yn cael eu cydnabod erbyn hyn, ac mae diwinyddiaeth hoyw yn dod â dimensiwn cwbl newydd i ddehongliadau o’r ysgrythur.

a thrawsrywiol yn gallu priodi’n gyfreithlon a mabwysiadu plant.

Ydyn ni’n dal i fyw mewn byd lle mae’r model o briodas Gristnogol yn dadlau fod yn rhaid i wraig fod yn ddarostyngedig i’w gŵr ar y sail ei fod ef yn ei charu hi fel y carodd Crist yr eglwys (Effesiaid 5:21-33)? Mae natur amodol y gorchymyn hwn wedi’i gamddefnyddio’n aml i gyfiawnhau gwneud menywod yn ddarostyngedig i’w gwŷr – sydd wrth gwrs, yn gwbl anghywir. Y cwestiwn yw, sut mae menywod a dynion Cristnogol yn cyd-drafod eu perthnasau a’u priodasau mewn tirwedd sydd wedi newid gymaint? A all y traddodiad Cristnogol gynnig unrhyw ddoethineb neu fewnwelediad i’r ystod o briodasau cyfoes a welwn heddiw, neu a ddylid cydnabod ei fod yn ‘hen ffasiwn’? A ddylai’r normau ysgrythurol o berthnasau gwrywaidd a benywaidd gael eu cynnal fel y delfryd, a beth fyddai hynny’n ei olygu i berthnasau un rhyw? Ac ai bod yn fam yw’r alwedigaeth uchaf i ferch: yn y bôn, y rheswm dros ei bodolaeth? Os felly, sut ydym yn dilyn yr alwedigaeth Gristnogol mewn byd lle mae bod yn fam yn cael ei danbrisio ac yn ddi-dâl?

Yn olaf, y cwestiwn pwysicaf i gyd yw hwn: sut roedd Iesu yn trafod menywod – a oedd yn her i gyfraith grefyddol ei ddydd? Pam gafodd ef ei roi yng ngofal croth menyw, a pham mai menyw oedd yn dyst i’w atgyfodiad? Ar ôl esgyniad Crist, pam ydych chi’n meddwl fod menywod wedi cael eu tawelu mor gyflym o hanes neu ‘His-story’?

## Geirfa

*diwinyddiaeth andro-ganolog (androcentric)* yw diwinyddiaeth sy’n tarddu o ddynion ac yn canolbwyntio arnyn nhw.

*cyflawnder (complementarianism)*: y cysyniad diwinyddol, er bod menywod a dynion yn gyfartal mewn statws a gwerth, nid ydynt yr un peth ond yn cyflenwi ei gilydd.

*trafodaethau rhywedd-benodol (gendered discourse)*: ffordd o feddwl sydd yn ei hanfod yn dangos rhagfarn at rolau penodol i’r rhywiau a/neu safleoedd grym sy’n aros heb eu harchwilio ac yn cael eu trin fel normau.

*esboniad (hermeneutic)*: gwybodaeth sy’n deillio o gwestiynu testun (yn enwedig testunau beiblaidd). Er enghraifft, beth a ysgrifennwyd yn syth cyn neu ar ei ôl? A oes ystyr diwylliannol unigryw i ymadroddion ieithyddol sy’n effeithio ar ein dehongliad ohonynt?

*esboniadau o amheuaeth (hermeneutics of suspicion)*: gwybodaeth sy’n deillio o gwestiynu testun gydag ‘amheuaeth’ e.e. a wnaeth yr awdur ysgrifennu hyn mewn gwirionedd? Pam gafodd ei ysgrifennu? I bwy? Beth oedd yn ceisio’i gyflawni drwyddo?

*patriarchaeth (patriarchy)* yw system o lywodraethu/goruchafiaeth gan ddynion.

*diwinyddiaeth hoyw* (*queer theology*) yw diwinyddiaeth sy’n deillio o ddiwinyddion oddi mewn i’r gymuned LGBT neu’n ei chefnogi sy’n dehongli’r testunau ysgrythurol o’u profiadau nhw fel/o bobl ffydd sy’n LGBT.

## Dolenni rhyngrwyd

https://www.movement.org.uk/faith-action/faith-action-theology-prayer (Faith in Action Resources - email required for free acces)

https://www.movement.org.uk/resources/womanist-theology-summary (Summaries of Feminist and Womanist Theology)

http://susannahcornwall.blogspot.com/ (Susannah Cornwall)

http://www.usccb.org/beliefs-and-teachings/what-we-believe/love-and-sexuality/index.cfm (Love and Sexuality, United States Conference of Catholic Bishops)

## Pwyntiau trafod

1. Pa ffurf o ddiwinyddiaeth ffeministaidd allwch chi uniaethu â hi orau, un Daly neu un Reuther?
2. Pam ydych chi’n meddwl na ddaeth triniaeth radical Iesu o fenywod yn rhan o ddiwinyddiaeth ac athrawiaeth yr eglwys gynnar?
3. Sut gallai Cristnogion integreiddio diwinyddiaeth â’r ddeddfwriaeth bresennol am briodasau cyfartal?
4. Sut ddylai’r eglwys ymateb i gyplau LGBTIQ?

## Cyfeiriadau a darllen pellach

Bacon, Margaret (1986). *Mothers of feminism: The Story of Quaker women in America*. San Francisco: Harper & Row.

Daly, M. (1973). *Beyond God the Father: Towards a philosophy of women’s liberation*. Boston, Massachusetts: Beacon Press.

Gatrell, C.J., Burnett, S.B., Cooper, C.L., & Sparrow, P. (2015). The price of love: The prioritisation of childcare and income earning among UK fathers. *Families, Relationships and Societies, 4*(2), 225-238.

Giles, K. (2002). *The Trinity and subordinationism: The doctrine of God and the contemporary gender debate*. Downers Grove, Illinois: InterVarsity Press.

Miller, E L., & Grenz, S.J. (1998). *Contemporary theology*, Minneapolis, Minnesota: Fortress Press.

ONS (2016). Women shoulder the responsibility of unpaid work. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/articles/womenshouldertheresponsibilityofunpaidwork/2016-11-10

Pope John Paul II (1988). Mulieris dignitatem, Apostolic letter on the dignity and vocation of women on the occasion of the Marian year. http://w2.vatican.va/content/john-paul-ii/en/apost_letters/1988/documents/hf_jp-ii_apl_19880815_mulieris-dignitatem.html

Ricoeur, P. (1970). *Freud and philosophy*: *An essay on interpretation*. New Haven, Connecticut: Yale University Press.

Ruether, R. (1994). *Gaia and God*: *An ecofeminist theology of earth healing*. San Francisco: Harper.

Schneiders, S.M. (1982). Women in the Fourth Gospel and the role of women in the contemporary church. *Biblical Theology Bulletin*, *12*(2), 35-45.

*Mae’r Parchedig Ddr. Hayley Matthews yn Gyfarwyddwr Hyfforddiant Lleyg i Esgobaeth Leeds ac yn Ddirprwy Gadeirydd Sefydliad William Temple. Teitl ei Doethuriaeth oedd,* No Faith in Equality and Diversity: The management of gender and sexuality in the Church of England *(Lancaster University, 2006). Mae ei chyhoeddiadau yn cynnwys* Grace and Power: Sexuality and Gender in the Church of England *(William Temple Foundation, 2015).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 14 Hydref 2018
© Jeff Astley

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Richard Swinburne ar yr Enaid

Jeff Astley

*Mae'r erthygl yn crynhoi amddiffyniad Swinburne o ddeuoliaeth sylwedd, a'i gyfrif ef o fywyd ar ôl marwolaeth a hunaniaeth bersonol.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AQA   AS 3.1.1.a Athroniaeth crefydd, Yr hunan, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth.*
*EDEXCEL   AS 2 B: Astudiaeth o Athroniaeth Crefydd, 5 Cyferbynnu safbwyntiau ar y berthynas rhwng y meddwl a'r corff.*
*EDEXCEL   A2 3 A: Athroniaeth crefydd, 2 Astudiaeth o amrywiol broblemau yn athroniaeth crefydd: Credoau am fywyd ar ôl marwolaeth: … anfarwoldeb yr enaid.*
*OCR   Athroniaeth Crefydd: 1. Iaith a Meddwl Athronyddol, Enaid, y meddwl a'r corff.*
Athronydd Prydeinig yw Richard Swinburne (ganwyd 1934) sydd (yn anarferol iawn y dyddiau hyn) yn amddiffyn deuoliaeth y corff a'r enaid (meddwl).

**Deuoliaeth ac -aethau eraill**
Mae Swinburne yn derbyn 'deuoliaeth sylwedd', y farn fod bod dynol, neu unrhyw 'berson' heb fod yn ddynol, yn sylwedd (hynny yw, yn beth arbennig, unigol sy'n bodoli ar unwaith ac yn 'meddu ar' nodweddion). Mae pob person ei hun yn cynnwys *dau sylwedd*:

(a) corff materol, sy'n byw mewn lle;
(b) enaid (neu feddwl) ansylweddol, sydd ddim yn byw mewn lle.

Tra bod gan (a) nodweddion ffisegol y gellir eu gweld gan bawb, mae gan (b) nodweddion meddyliol a dim ond un gwrthrych sydd â 'mynediad breintiedig' ato. Yn y bywyd hwn, mae i (b) weithio yn gofyn i (a) weithio, ac mae'r pethau sy'n digwydd yn yr ymennydd yn cyfateb yn uchel â'r digwyddiadau yn y meddwl (yn yr ystyr eu bod yn digwydd yn rheolaidd ar yr un pryd neu'r naill ar ôl y llall). *Yn rhesymegol*, fodd bynnag, nid oes gwrthddywediad mewn tybio fod 'yr enaid yn parhau i fodoli heb ei gorff presennol neu'n wir unrhyw gorff o gwbl'.

Mae'r ffurf yma o ddeuoliaeth yn dal mai sylweddau meddyliol yw bodau dynol *yn eu hanfod*. Mae hyn oherwydd, er eu bod ar hyn o bryd yn cynnwys dwy ran, enaid sylweddol sy'n meddu ar nodweddion a digwyddiadau meddyliol pur, a chorff sylweddol sy'n meddu ar

nodweddion a digwyddiadau corfforol, yr enaid yw eu rhan *hanfodol* ac mae'r corff yn rhan anhanfodol. Mae Swinburne yn dadlau ymhellach, 'bod gan bob un ohonom "hynrwydd" [unigryw] sy'n gwneud ef neu hi y person hwnnw, ... ar wahân i unrhyw hynrwydd sydd gan fater eu hymennydd; ac mae bod y person hwnnw yn cyd-fynd â chael unrhyw nodweddion meddyliol neu nodweddion corffol (ac felly corff) o gwbl' (Swinburne, 2013, t. 151).


Mae meddyliau eu hunain yn *effeithlon* (yn cynhyrchu effaith), ac yn arwain nid yn unig at newidiadau yn yr ymennydd ac ymddygiad dilynol ond hefyd at feddyliau eraill. Ond:

> mae nodweddion y meddwl yn wahanol i nodweddion y corff; a hyd yn oed os oes un-llawer o gydberthynas rhwng digwyddiadau'r meddwl a digwyddiadau'r ymennydd, ni all ffiseg a chemeg esbonio pam fod yna'r cydberthnasau hyn yn hytrach na'r cydberthnasau yna, ac mae hynny oherwydd bod nodweddion meddyliol yn disgyn y tu allan i bwnc ffiseg a chemeg. (Swinburne, 1986, t. 186)

Nid yw'n debygol chwaith y gellid dyfeisio damcaniaeth wyddonol o'r fath, oherwydd bod amrywiadau mewn digwyddiad ymenyddol mor wahanol i amrywiadau mewn digwyddiadau meddyliol. 'Nid yw cydberthynas yn unig yn esbonio' (ac nid yw yr un peth ag 'achosiad'). Ni wyddom chwaith beth sydd am yr ymennydd sy'n cadw'r enaid i weithio.


Mae Swinburne yn galw'i safbwynt yn 'ddeuoliaeth feddal' (1986, t. 10) oherwydd bod ar yr enaid angen corff fel arfer ac nid yw'n anfarwol yn naturiol (fel roedd Descartes yn tybio). Y math o ddeuoliaeth y mae Swinburne yn dadlau drosto yw *rhyngweithiad*, lle mae'r meddyliol a'r corfforol yn rhyngweithio yn y ddau gyfeiriad; mae'n gwrthod felly y syniad fod y corfforol yn effeithio ar y meddyliol, ond nid fel arall (hynny yw, *epiffenomeniaeth*, nad oes gan y meddwl bŵer achosol annibynnol drosto). Pe na bai ein teimladau'n achosi'n credoau amdanyn nhw, ni fyddai gennym sail dros gredu eu bod yn bodoli – eto 'mae mor amlwg ag unrhyw beth fod gen i deimladau'. Rhaid i feddyliau fod yn effeithlon hefyd os gellir *cyfiawnhau* ein credoau amdanynt, ac os gallwn eu mynegi (digwyddiad corfforol). I gael ei gyfiawnhau, ni all *cred sydd angen rhesymau dros ei chyfiawnhad* gael ei dal 'mewn lle' dim ond gan ddigwyddiadau corfforol yn yr ymennydd. Mae'n mynnu hefyd ymhlith ei achosion 'gyflyrau sy'n meddu ar ystyr cynhenid' – hynny yw, credoau eraill y derbyniwn fel rhesymau dros y gred (t. 290).

Mae Swinburne yn derbyn fod deddfau syml meddwl (cysylltiadau rhesymegol rhwng meddyliau) yn gweithredu a bod yn rhain yn debygol o fod yn rheoli eu hunain. Gall prosesau'r ymennydd fod yn *angenrheidiol*, ond nid ydynt yn *ddigonol* i gynhyrchu dilyniant o feddyliau o'r fath. Yn y diagram isod (o 1986, t. 84) mae meddyliau (M) yn cael eu dylanwadu'n achosol nid yn unig gan ddigwyddiadau'r ymennydd (Y) ond gan feddyliau eraill hefyd.




Mae gan yr enaid strwythur parhaus o gredoau a dyheadau (digwyddiadau ag ystyr cynhenid) sy'n wahanol i unrhyw

strwythur ymenyddol. Felly nid yw fel clustog feddal neu sedd galed, y mae eu siâp yn cael eu pennu gan siâp y sedd. Yn hytrach mae 'ei siâp [= credoau a dyheadau'r enaid] mewn rhai rhannau yn cael eu pennau gan ei siâp mewn rhannau eraill, ac mae ei siâp i ryw raddau yn pennu siâp yr ymennydd [= rhwydwaith electrocemegol yr ymennydd]' (t. 291).




Mae Swinburne hefyd yn gwrthod *ymddygiadaeth* (y safbwynt fod fy 'nigwyddiad meddyliol' i yn ddim mwy na mi'n ymddwyn mewn ffordd arbennig) a'r *ddamcaniaeth hunaniaeth meddwl-ymennydd* (lle mae digwyddiadau'r meddwl yn ddigwyddiadau'r ymennydd mewn gwirionedd), ar y sail nad yw digwyddiadau'r meddwl (teimladau, meddyliau, dyheadau ayb.) yn gallu cael eu symleiddio i ymddygiad cyhoeddus neu i ddigwyddiadau corfforol.

**Dyfodol yr enaid**

Mae Swinburne yn mynd i'r afael â thri math o ddadl yr honnwyd sy'n dangos y gall yr enaid weithredu heb yr ymennydd

(a) Dadleuon o *baraseicoleg* (megis tystiolaeth honedig o ailymgnawdoliad, Ysbrydoliaeth a phrofiadau ar fin marw). Mae'r holl dystiolaeth yma naill ai'n amhosibl ei gwirio, yn cael ei hesbonio gan ddamcaniaethau eraill, neu'n amherthnasol.

(b) Dadleuon o ystyriaethau athronyddol am *natur yr enaid* (e.e. fod ei anfarwoldeb naturiol yn sicr oherwydd nad oes ganddo rannau y gallai gael ei dorri iddynt). Mae pob dadl o'r fath yn gyfeiliornus. Nid yw eneidiau yn naturiol anfarwol.

(c) Dadleuon o *ddamcaniaeth fetaffisegol*: mae theistiaeth yn dal fod gan Dduw hollalluog y pŵer i roi bywyd ar ôl marwolaeth i eneidiau ac yn bwriadu dyfodol ar eu cyfer. Mae Swinburne yn dadlau:

> os wyf yn gywir yn fy honiad na allwn ddangos fod gan yr enaid natur fel ei fod yn gallu goroesi 'ar ei liwt ei hun', ac na allwn ddangos fod ganddo natur fel na all oroesi heb yr ymennydd sy'n ei gynnal, yr unig fath o ddadl y gellir ei rhoi yw dadl sy'n mynd y tu hwnt i natur. (1986, t. 309)

Ni fyddai hyn yn golygu fod Duw yn torri deddfau naturiol, oherwydd 'nid oes deddfau naturiol sy'n gorchymyn beth fydd yn digwydd i'r enaid ar ôl marwolaeth'. *Mae'r enaid fel bwlb golau*, ac mae'r ymennydd fel soced golau trydan: mae'r cyntaf yn gweithio wedi cael ei 'blygio i mewn' i'r ail. Nid oes gwrth-ddweud, fodd bynnag, o dybio y gallai Duw 'symud enaid o un corff a'i blygio i mewn i un arall' (gan ganiatáu ymgnawdoliad neu atgyfodiad), neu y gallai hyd yn oed gael yr enaid i weithio heb ei blygio i mewn i unrhyw ymennydd o gwbl. Eto ymgorfforiad dynol yw 'eu cyflwr normal a fwriadwyd yn ddwyfol', sy'n awgrymu 'atgyfodiad cyffredinol o eneidiau gyda chyrff newydd mewn rhyw fyd arall' (1986, tt. 310-311). Serch hynny:

> P'un ai ei bod yn gorfforol neu'n ymarferol bosibl i gorff presennol unrhyw fod dynol gael ei ddinistrio ac

> eto i'w henaid barhau i fodoli, fy haeriad i yw ei fod yn cyd-fynd â'r hyn yr ydym yn y bôn, sef y dylai unrhyw fod dynol barhau i fodoli heb eu corff presennol neu unrhyw gorff o gwbl; ac felly mae pob un ohonom yn ei hanfod yn sylwedd meddyliol pur ... [Fodd bynnag, mae'r] ddeuoliaeth sylwedd hon yn athrawiaeth am yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer ein bodolaeth, nid yr hyn sy'n gwneud bywyd llawn a gwerth chweil. (Swinburne, 2013, t. 2)

**Dilema trawsblaniad ymennydd**

Mae Swinburne yn tanlinellu hygrededd ei honiadau am ddeuoliaeth drwy amrywiol arbrofion meddwl am drawsblaniad ymennydd (1986, tt. 9-10, 147-151; 1994, tt. 19-21; 2013, tt. 151-157).

Os yw ymennydd person, *p*, yn cael ei rannu'n ddau hemisffer, ac mae pob un o'r hemisfferau hyn yn cael eu trawsblannu i benglog gwag corff arall, yna (os yw'r trawsblaniad yn goroesi ac yn cymryd drosodd rolau'r hemisffer arall):

> bydd y trawsblaniad wedi creu dau berson, y ddau mae'n ymddangos gydag atgofion a chymeriad *p*. Ond ni all y ddau fod yn *p*. Oherwydd pe byddent, byddai'r ddau yr un person â'i gilydd, ac yn amlwg dydyn nhw ddim – mae ganddynt fywydau meddyliol ar wahân. Byddai'r llawdriniaeth felly yn creu o leiaf un person newydd – gallem fod â'n syniadau am ba un (os o gwbl) yw'r person *p* sy'n ymddangos, ond gallem fod yn anghywir. A dyna fy mhwynt sylfaenol – faint bynnag a wyddem mewn sefyllfa o'r fath am beth sy'n digwydd i rannau corff rhywun, ni fyddem yn gwybod i sicrwydd beth sy'n digwydd i'r person. (1986, tt. 148-149)

Er ein bod yn gwybod beth ddigwyddodd i ymennydd *p*, nid yw hyn yn dweud wrthym beth ddigwyddodd i *p*: felly, 'nid yw gwybodaeth yn unig am beth sy'n digwydd i gyrff [hyd yn oed yr ymennydd] yn dweud wrthych beth sy'n digwydd i bobl' (1994, t. 19). Felly nid yw unigolion yr un fath â'u cyrff. Deddfau natur sy'n trefnu cyrff, ond 'mae angen Duw neu siawns i roi cyrff i unigolion'.

**Hunaniaeth bersonol**

Fel mae'r dilema am y trawsblaniad ymennydd yn dangos, tra bod modd rhannu hunaniaeth pethau difywyd, mae'n 'anodd rhoi unrhyw synnwyr' i'r syniad bod yna 'hanner ffordd rhwng un yn cael profiadau yn y dyfodol sydd gan un person, ac un ddim yn eu cael', ac felly i'r syniad fod unigolion (eu hunaniaeth bersonol) yn gallu cael eu rhannu (1986, t. 150). Nid yw'r ffaith fod gan unrhyw berson sy'n ymddangos yn ansoddol yr un cof a chymeriad ag sydd gen i ddim yn sicrwydd mai ef *ydw* i – yn gyfan neu'n rhannol. Felly, mewn arbrawf meddwl arall, mae Swinburne yn mynnu:

> Nid yw fy nymuniad am hapusrwydd yn y byd a ddaw yn cael ei fodloni o gwbl gan yr wybodaeth fod archangylion fel arfer yn cynhyrchu copi o bob person marw (gyda'i atgofion a'i gymeriad ymddangosiadol). I fodloni fy nymuniad, rwyf am rywbeth mwy – fy mod yn mwynhau'r hyn mae'r person yn y dyfodol yn ei fwynhau ac felly fi fydd ef. (Shoemaker and Swinburne, 1984, t. 135)

Y *diffiniad o hunaniaeth bersonol* yw'r ffaith fod person yr un fath dros amser. Rydych chi yr un person â'r un yn yr holl

luniau o fabanod, plant bach, plant 9 oed, ayb. y mae'ch rhieni'n eu trysori. Mae Swinburne yn ein hannog i wahaniaethu rhwng (a) yr hyn sy'n *gwneud* person yr un person (er gwaetha'r newidiadau amlwg drwy gydol ein bywydau), a (b) sut yr ydym ni neu eraill yn *gwybod* mai dyma'r un person (Swinburne, 1977, tt. 119-120). Yn ei farn ef, 'mae hunaniaeth unigolion ar wahanol adegau wedi'i ffurfio gan hunaniaeth eu heneidiau'. Yr un enaid = yr un person. Ac mae'r hunaniaeth hwn yn cael ei brofi (gennym ni) ym mharhad ein digwyddiadau meddyliol: 'mae ymwybyddiaeth y gwrthrych yn ymwybyddiaeth ohono'i hun fel testun cyffredin gwahanol deimladau (a digwyddiadau meddyliol eraill)'. Ac mae hynny'n rhywbeth y byddai 'gwybodaeth am ymenyddiau a'u cyflyrau a gwybodaeth am ba brofiadau oedd yn digwydd yn annigonol i ddweud wrthych' (Shoemaker and Swinburne, 1984, tt. 42-46, 49).

Ond beth am y *dystiolaeth am hunaniaeth bersonol*? Mae honiadau am hunaniaeth bersonol yn aml yn cael eu trin fel rhai gwiriadwy gan feini prawf tystiolaethol. Mae barn Swinburne am y rhain fel a ganlyn (Shoemaker and Swinburne, 1984, tt. 49-66; Swinburne, 1986, ch. 9).

> (a) *Mae'r maen prawf parhad yr ymennydd* yn eilaidd – mae ei awdurdod yn dibynnu ar y ffaith fod parhad yr ymennydd yn gwarantu fel arfer barhad cof a chymeriad ymddangosiadol. (Mae *parhad corfforol* yn dystiolaeth dda ar gyfer parhad yr ymennydd; ond mae *tebygrwydd ymddangosiad* yn cynnig tystiolaeth wannach o hyn.)
> (b) Mae *parhad cof personol ymddangosiadol* (cofio'ch gweithredoedd a'ch profiadau eich hun) yn elfennol, yr awdurdod eithaf: 'dylid barnu person i fod (h.y. i fod â'r un enaid â) yr un y mae'n cofio'i hun i fod wedi bod'. Y rheswm am hyn yw bod dibynnu ar gof personol yn ddefnydd arbennig o 'egwyddor hygoeledd', y mae ef yn honni sy'n egwyddor sylfaenol o resymoledd: sef yn absenoldeb gwrthdystiolaeth mae pethau'n debygol o fod fel y maent yn ymddangos. (Fodd bynnag, mae honiadau am gofio pethau yn aml yn cael eu gwirio'n gyhoeddus yn erbyn tystiolaeth gorfforol o bresenoldeb rhywun ar yr adeg a'r lle y soniwyd amdanynt yn yr hyn maent yn honni ei gofio.)
> (c) Mae *parhad cymeriad* (meddu ar yr un credoau, dyheadau, ymatebion craidd) yn faen prawf llai, y gellir ei ychwanegu at faen prawf (b).

Mae'n ymddangos – gan nad yw eneidiau yn naturiol anfarwol – er mwyn bod yr un person mewn bywyd ar ôl marwolaeth ag yr ydych yn awr, y byddai'n rhaid i Dduw barhau i gynnal neu ail-greu'ch enaid. Ond i chi *wybod* mae'r un person oeddech, byddai'n rhaid i Dduw barhau i gynnal neu ail-greu'ch atgofion personol (ac, efallai, eich cymeriad). Pe byddech yn cael corff ar ôl marwolaeth, gallai pobl eraill wybod mai'r un person oeddech chi pe bai'r corff hwn yn ddigon tebyg i'r un a oedd gennych yn eich bywyd daearol, a phe baech yn cyfleu iddyn nhw eich atgofion ac yn mynegi'ch cymeriad drwyddo (pe byddech yn dal heb gorff, yn ôl pob tebyg byddent ond yn gwybod y pethau hyn drwy ryw fath o delepathi).

## Dolenni rhyngrwyd

(Cyfweliadau â Swinburne)

https://www.youtube.com/watch?v=pRqtg1j9oBY (How Does Personal Identity Persist Through Time?)

https://www.youtube.com/watch?v=jWWO4j5xsRQ (Does Brain Science Disprove the Soul?)

## Pwyntiau trafod

1. Pa dystiolaeth neu ddadleuon allai herio deuoliaeth sylwedd Swinburne?
2. Sut gallai rhywun feirniadu casgliadau Swinburne o'r arbrofion meddwl am drawsblaniad yr ymennydd?
3. Os *nad* yw bodau dynol yn meddu ar eneidiau, sut gallai hunaniaeth bersonol mewn bywyd ar ôl marwolaeth gael (a) ei ddeall a (b) ei wybod i'r hunan ac eraill?

## Cyfeiriadau

Shoemaker, S. and Swinburne, R. (1984). *Personal identity*. Oxford: Blackwell.

Swinburne, R. (1977, 1993, 2016). *The coherence of theism*. Oxford: Clarendon Press.

Swinburne, R. (1986, 1997). *The evolution of the soul*. Oxford: Clarendon Press.

Swinburne, R. (1994). *The Christian God*. Oxford: Clarendon Press.

Swinburne, R. (2013). *Mind, brain, and free will*. Oxford: Oxford University Press.

*Ar hyn o bryd yr Athro Jeff Astley yw Athro Alister Hardy mewn Crefydd a Phrofiad Ysbrydol ym Mhrifysgol Warwick. Mae'n athro anrhydeddus ym Mhrifysgol Durham a Phrifysgol Efrog Sant Ioan. Mae ei gyhoeddiadau perthnasol yn cynnwys 'Thinking About Life After Death: Options and Identity',* Dialogue*, 3, 1995, tt. 25-29 a* God's World *(Darton, Longman and Todd, 2000).*